



Teitl y Swydd: **Swyddog Marchnata a Chyfathrebu (Cyfnod Mamolaeth)**

Math o gytundeb: Cytundeb tymor penodol ar gyfer cyfnod mamolaeth (hyd at 12 mis). Llawn amser (35 awr yr wythnos)

Graddfa: Graddfa 5 £28,505 (pwynt 1) - £31,757 (pwynt 4) y flwyddyn

Lleoliad: Hyblyg. Un o swyddfeydd yr Urdd ar draws Cymru.

Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, y celfyddydau, gwirfoddoli, hyfforddiant, gwaith dyngarol, rhyngwladol a phreswyl, sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ers ei sefydlu yn 1922, mae'r mudiad wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Hyd yma mae dros 4 miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o'r Urdd ac eleni mae'r mudiad yn edrych ymlaen at ddatlu ei ganmlwyddiant a chydag nifer o ddigwyddiadau mawr wedi'u cynllunio'n arbennig.

Yr Urdd yw cyflogwr trydydd sector cyfrwng Cymraeg mwyaf yng Nghymru, gyda dros 200 o staff wedi'u lleoli mewn 12 swyddfa ledled Cymru. Roedd ei drosiant blyneddol cyn Covid bron yn £12M, a daeth â gwerth economaidd o £32M i Gymru yn ystod 2019/20.

Y Swydd

Mae'r Urdd yn edrych am unigolyn creadigol a brwdfrydig fydd yn arwain gweithgareddau marchnata'r mudiad ac yn chwarae rhan adeiladol i godi proffil gweithgareddau'r Urdd.

Rydym yn edrych am berson sydd a phrofiad o weithio ym maes marchnata a chyfathrebu gyda'r sgiliau a phrofiad i feddwl yn greadigol ac yn gynnwl am syniadau i hyrwyddo yr Urdd a'u wasanaethau i gynulleidfaedd newydd.

Bydd y person llwyddiannus yn rhan o dîm yr Adran Gyfathrebu gan gydweithio gyda'r Cyfarwyddwr, Rheolwr Cyfathrebu, y Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a'r dylunydd ar ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata aml gyfrwng gan sicrhau cyrhaeddiad cynyddol i brif negeseuon yr Urdd.

Am fwy o fanylion **darllenwch y swydd ddisgrifiad yma**, neu am sgwrs bellach cysylltwch â Mali Thomas - Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Rhyngwladol yr Urdd ar 07834 709082 / mali@urdd.org

Anfonwch **Ffurflen Gais** yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – Dydd Sul 29 Mai

Dyddiad Cyfweled – I'w gadarnhau

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd:	Swyddog Marchnata a Chyfathrebu (mamolaeth)	Lleoliad:	Hyblyg. Un o swyddfeydd yr Urdd ar draws Cymru.
Adran:	Cyfathrebu		
Yn atebol i :	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a drwyddi i'r Prif Weithredwr	Graddfa:	Graddfa 5 £28,505 (pwynt 1) - £31,757 (pwynt 4) y flwyddyn

Prif bwrpas y Swydd

Cynnig arweiniad marchnata a chefnogaeth gyfathrebu i brosiectau'r Urdd gan chwarae rhan adeiladol mewn ymgyrchoedd i godi proffil yr Urdd ar draws yr holl adrannau.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Rheoli holl waith marchnata'r mudiad – yn cynnwys y brand a'r ddelwedd
2. Bydd y gwaith yn cynnwys creu cynlluniau, ysgrifennu cynnwys addas, briffio dylunydd a chydweithio gyda chwmnïau cynhyrchu.
3. Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a gweddill yr adran gyfathrebu i roi cynlluniau hyrwyddo amlgyfrwng at ei gilydd er mwyn codi proffil o waith yr Urdd gan gyrraedd targedau penodedig yr ymgyrchoedd.
4. Cydweithio gyda adrannau amrywiol yr Urdd (e.e Chwaraeon, Eisteddfod, Gwersylloedd ayyb) i gynnig cyngor neu arweiniad ar farchnata ynghyd a chynhyrchu gwaith addas ar gyfer eu hymgyrchoedd a phrawf ddallen yn ôl y galw
5. Yn gyfrifol am bresenoldeb yr Urdd mewn digwyddiadau a chynadleddau.
6. Cyfrifoldeb am nwyddau'r Urdd a siop ar lein y mudiad gan gyrraedd targedau gwerthiant blynyddol.
7. Pwynt cyswllt cychwynnol i'r cyfryngau gan ddelio gyda ymholiadau gan ddirprwyo i'r Rheolwr Cyfathrebu ar adegau.
8. Cynorthwyo'r Rheolwr Cyfathrebu i greu datganiadau i'r Wasg yn y Gymraeg a'r Saesneg.
9. Yn ddibynnol ar gyfarwyddyd a chynlluniau Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Datblygu'r Urdd, cyfrannu fel aelod o dîm at holl waith yr adran gan ddangos y gallu i fod yn hyblyg o ran y tasgau y gofynnir i'r swyddog ymdrin â hwy.

Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

- O leiaf blwyddyn mewn rôl gyffelyb gyda chyfrifoldebau o arwain ymgyrchoedd marchnata neu gyfathrebu i sefydliad.
- Profiad o gynllunio a rheoli ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus gan chwarae rôl blaenllaw yn llwyddiant yr ymgyrch.
- Sgiliau ysgrifenedig rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Profiad a sgiliau prawf ddarllen cynnwys.
- Profiad o weithio gyda dylunwyr proffesiynol.
- Sgiliau rheoli prosiect cadarn sy'n cynnwys profiad mewn rheoli digwyddiadau gyda phrofiad o gynllunio ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu llwyddiannus.
- Profiad o weithio ar eich liwt eich hun, yn berson trefnus sy'n gallu blaenoriaethu gwaith yn ôl y galw, law yn llaw a bod yn aelod o dîm yr adran gyfathrebu.
- Profiad o weithredu o fewn amserlenni tynnu.

- Profiad o weithio gyda'r Wasg ac o greu datganiadau i'r Wasg.

Dymunol

- Dealltwriaeth o systemau gwefan ac e-farchnata.
- Cymhwyster ym maes cyfathrebu neu farchnata.
- Trwydded Yrru lawn.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol yr unigolyn i dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2022 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn y Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Swyddog Marchnata Chyfathrebu
Cyflog:	Graddfa 5 £28,505 (pwynt 1) - £31,757 (pwynt 4) y flwyddyn
Cytundeb:	Mamolaeth
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Hyblyg.
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis

Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir ymgymryd a archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.